



Cyda'n Gilydd Dysgw'n Ddisgleirio - Learning To Shine Together

GRANT DYSGU PROFFESIYNOL 2019 - 2020

Grant Llywodraeth Cymru - Grant Dysgu Proffesiynol

Y disgwyliad yw y bydd y cyllid yn helpu ysgolion i fodloni gofynion y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (NAPL) newydd a bod yn fodd i fuddsoddi yn elfennau'r model. Er enghraifft, mae'n fodd i fuddsoddi yn llwybrau dysgu proffesiynol unigol ymarferwyr a buddsoddi mewn cydweithrediad.

Prif ddiben y cyllid yw creu amser mewn ysgolion i ymarferwyr wneud y newidiadau i arferion sydd eu hangen cyn gwireddu'r cwricwlwm newydd.

- Bydd y cyllid yn targedu'r dysgu sydd ei angen ar athrawon a dysgwyr i'w paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- Y disgwyliad ar gyfer y cyllid yw y bydd pob ymarferydd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol gan ddefnyddio'r cyllid. Nid yw'n cael ei gadw'n arbennig at ddefnydd athrawon ac arweinwyr a dylid ei ddefnyddio, er enghraifft, i alluogi cymorthyddion dysgu i gael mynediad i ddysgu proffesiynol.
- Nid yw'n cael ei gadw'n arbennig i gefnogi athrawon ac arweinwyr a dylid ei ddefnyddio i gefnogi pob ymarferwr sy'n cefnogi'r addysgu a'r dysgu mewn dosbarthiadau, gan gynnwys cymorthyddion dysgu/cynorthwywyr cymorth dysgu
- Dylid defnyddio'r cyllid i gefnogi ymwneud â'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol, neu gynnig proffesiynol, er enghraifft SAU, neu i gefnogi dysgu proffesiynol ar y cyd ar draws ysgolion.

Yn unol â hyn, dylai'r cyllid gael ei ddefnyddio i gefnogi meysydd megis:

- Y broses gyffredinol o ryddhau athrawon a chymorthyddion dysgu i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol;
- Talu unigolion, gan greu rolau a swyddi, i gefnogi'r gwaith o gydlynu gweithgareddau DP ar draws ysgol neu grŵp o ysgolion. Byddai'r rolau hyn yn cynnwys cefnogi cyd-weithwyr, adrannau neu ddulliau gweithredu ysgol gyfan gydag ymholi beirniadol, rheoli newid a gweithgareddau YSD;

- Costau rhyddhau er mwyn i ymarferwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil ac ymholi beirniadol, gan ariannu amser rhyddhau i ymchwilio i oblygiadau'r cwricwlwm newydd ar gyfer eu harfer addysgu ac asesu eu hunain;
- Costau rhyddhau i alluogi ymarferwyr i gydweithio yn yr ysgol ac ar draws clystyrau a rhwydweithiau ysgolion - gan gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol ar y cyd a chynllunio ar y cyd;
- Cefnogi datblygiad rolau megis Hyfforddwr Dysgu Proffesiynol ysgol (neu lefel clwstwr).

Yn **2019-20** rhoddwyd i Ysgol Tudno ddyraniad Grant Dysgu Proffesiynol o **£6,545**.

Dyma amlinelliad o'n bwriadau :

- Rhyddhau athrawon a Chymorthyddion Addysgu yn gyffredniol, i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Datblygu Ysgol : Blaenoriaeth 1 - 'Sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu fel sefydliad sy'n dysgu gan gynnwys cefnogi cydlynu gweithgareddau Dysgu Proffesiynol ar draws ein hysgol a'n Clwstwr. Byddai'r rolau hyn yn cynnwys cefnogi ac arwain fforymau neu ddulliau Ysgol Gyfan o ymholi beirniadol, rheoli newid a gweithgareddau Ysgol Fel Sefydliad Sy'n Dysgu.
- Y costau rhyddhau i ymarferwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil beirniadol fel Timau yn yr Ysgol, gan ariannu amser rhyddhau i ymchwilio i oblygiadau'r cwricwlwm newydd i'w harfer addysgu ac asesu eu hunain.
- Rhaglen Partneriaeth Ysgolion Clwstwr Llandudno : Education Development Trust a GwE. Ein Blaenoriaeth 2 o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol – 'Parhau i wreiddio arweinyddiaeth ddosranedig I gynnwys gwaith Adolygu Cymheiriaid Clwstwr'.
- Cefnogi datblygiad swyddogaethau megis arweinyddion a hwyluswyr o fewn yr ysgol a Chlwstwr gan gynnwys Fforymau.